Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# EIN GWASANAETHAU

# GWASANAETH ÔL-DRAFOD POBL IFANC AR GOLL


**Mae Llamau yn cynnig gwasanaeth ôl-drafod a chyfryngu annibynnol o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc yr adroddwyd eu bod 'ar goll' yn ardal Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cymorth uniongyrchol i'r unigolyn ifanc, cyfryngu teuluol a gwaith grŵp fel y bo'n briodol, ynghyd ag atgyfeiriadau am gymorth arbenigol gan asiantaethau partner.**



**MANYLION Y CONTRACT**
Contract yn eiddo i Llamau
Hyd y contract: 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2025
Gwerth y contract: £93,000 y flwyddyn

## YSTADEGAU

**Oedran y rhai sy'n cael eu hatgyfeirio:**




**Yn ystod 2024/2025:**
**Cafwyd 369 o atgyfeiriadau ar gyfer ôl-drafodaeth**
**Cwblhawyd 245 o sesiynau ôl-drafod gan Llamau (y tro cyntaf a rhai ategol)**
**Gwrthodwyd / nodwyd 123 o ôl-drafodaethau fel rhai amhriodol**

**Rhywedd:**

- Gwryw: 51%
- Benyw: 47%
- Trawsryweddol 1%
- Heb ei nodi: 1%

**Y pum prif reswm dros fynd ar goll:**

1. Eisiau bod gyda ffrindiau / pwysau gan gyfoedion
2. Ddim yn meddwl eu bod ar goll
3. Angen amser i ffwrdd
4. Ddim yn hapus / problemau yn yr ysgol
5. Dadleuon / gosod ffiniau gartref

**Nifer yr ôl-drafodaethau lle nodwyd risgiau o gamfanteisio'n rhywiol ar blant: 56**
**Nifer yr atgyfeiriadau diogelu: 90**

"Roedd siarad â chi wedi bod o fudd i'm mab i, ac mae'n deall y peryglon a oedd yn dod i'w ran wrth fynd ar goll."

"Fe'm gwnaeth yn ymwybodol o faterion diogelwch, a sut roedd fy mam yn teimlo pan es i ar goll."

"Dw i mor falch ein bod ni wedi siarad. Dw i ddim yn gwybod beth fyddwn i wedi'i wneud hebddo chi!"

"Fyddwn i ddim wedi bod â'r hyder i fynd i ofyn am gymorth gan weithwyr proffesiynol pe na baen ni wedi siarad. Diolch!"

## Gwybodaeth Bellach:

@DPOPCC

https://www.llamau.org.uk/
enquiries@llamau.org.uk
029 2023 9585

Llamau
Imagine a World Without Homelessness